| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD | **17 MEHEFIN 2024** |
| TEITL | **DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU** |
| PWRPAS | **Derbyn a nodi diweddariad chwarterol gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru** |
| ARGYMELLIAD | **DERBYN A NODI Y WYBODAETH** |
| AWDUR | **DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae hwn yn adroddiad rheolaidd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Pwyllgor Pensiynau ar y gwaith a wneir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PCC) ar ran yr wyth cronfa CPLlL yng Nghymru.

Mae PPC bellach wedi'i hen sefydlu, gyda Waystone fel gweithredwr i ddarparu gwasanaethau a reoleiddir gan yr FCA a Russell Investments sy'n darparu opsiynau buddsoddi ar gyfer asedau rhestredig. Northern Trust yw'r ceidwad byd-eang penodedig. Hymans Robertson yw'r cynghorydd llywodraethu a goruchwylio ac mae Robeco yn darparu gwasanaethau pleidleisio ac ymgysylltu i PPC yn unol â'i gyfrifoldebau a'i ymrwymiadau stiwardiaeth.

## 2. DIWEDDARIAD CHWARTERTOL CYD- BWYLLGOR LLYWODRAETHU (CLl)

Cynhaliwyd cyfarfod y Cydbwyllgor Llywodraethu (CLl), sef corff gwneud penderfyniadau y Bartneriaeth, yn ffurfiol ar 13 Mawrth 2024. Mae’r awdurdod lletya wedi darparu crynodeb o’r eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw sydd ynghlwm yn Atodiad 1.

Cafodd yr eitemau canlynol eu trafod a cymeradwyo:

- Proses Caffael Eiddo
- Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan
- Cynllun Hyfforddiant (Atodiad 2)
- Cynllun Busnes (Atodiad 3a a 3b)
- Cofrestr Risg
- Adolygiad polisiau

## 3. DIWEDDARIAD GWEITHREDWR

Mae copi o’r diweddariad chwarterol diweddaraf gan y gweithredwr wedi’i atodi yn Atodiad 4.

Mae'r diweddariad yn rhoi cipolwg o'r ystod lawn o is-gronfeydd buddsoddi PPC ar 31 Rhagfyr 2023.

Ar hyn o bryd mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi mewn wyth o’r un ar ddeg is-gronfeydd ac ar 31 Rhagfyr 2023 roedd y rhain fel a ganlyn:

- **Cyfleoedd Byd-Eang - £399.0m**
- **Twf Byd- Eang- £385.1m**
- **Marchnadoedd Datblygol - £57.7m**
- **Goddefol Byd-Eang - £443.9m**
- **Credyd Aml Ased - £216.9m**
- **Bond Dychwelyd Absoliwt- £403.1m**
- **Cronfa Credyd Byd-Eang - £222.3m**
- **Cronfa Ecwiti Cynaliadwy- £293.2m**

## 4. ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 31 RHAGFYR 2023

Mae'r adroddiadau perfformiad i'w gweld yn atodiad 5.

Dringodd ecwiti yn y pedwerydd chwarter gyda'r mynegeion byd-eang yn ennill dau ddigid. Parhaodd gwendid y farchnad trydydd chwarter i fis Hydref ar bryderon ynghylch chwyddiant parhaus a chyfnod hir o gyfraddau llog uchel. Ychwanegodd pryderon geopolitical a ysgogwyd gan wrthdaro yn y Dwyrain Canol at rybudd buddsoddwyr. Fodd bynnag, diflannodd y pesimistiaeth hon yn gyflym ym mis Tachwedd, wrth i dystiolaeth o chwyddiant ostwng godi disgwyliadau o doriadau cyfraddau llog o'n blaenau, a daniwyd ymhellach gan sylwadau gan Gadeirydd y Gronfa Ffederal Jerome Powell ym mis Rhagfyr. Ciliodd doler yr Unol Daleithiau, gan golli ei enillion blwyddyn hyd yma, wrth i farchnadoedd brisio mewn toriadau ardrethi erbyn canol 2024, gan ymestyn y rali mewn prisiau aur. Gadawodd y Fed, Banc Canolog Ewrop a Banc Lloegr gyfraddau llog heb eu newid yn eu cyfarfodydd gosod ardrethi.

Mae perfformiad yr is-gronfeydd y mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn buddsoddi ynddynt yn cael eu monitro gan swyddogion, ac fel rhan o adolygiad buddsoddi chwarterol gan Hymans Robertson ac nid oes pryderon wedi eu nodi.

## 5. DIWEDDARIAD MARCHNADOEDD PREIFAT (ISADEILEDD)

Penodwyd GCM Grosvenor yn Ddyranwr ym mis Mawrth 2022. Rhoddodd GCM Grosvenor ddiweddariad cynnydd ar y rhaglenni buddsoddi penagored a caeedig (Atodiad 6).

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi £3.6m ar 31 Rhagfyr 2023, ond bydd y swm hwn yn cynyddu'n sylweddol dros amser.

## 6. ARGYMHELLIAD

I dderbyn a nodi y wybodaeth.